Swydd-ddisgrifiad Staff Cymorth

Teulu swyddi:	**Polisi ac Ymchwil**
Band cyflog:	**Band 1**
Ystod cyflog: **(pro-rata)**	**£39,274 - £50,496** Disgwylir i bob aelod newydd o staff ddechrau ar raddfa isaf y band priodol. Bydd staff unigol, yn amodol ar berfformiad boddhaol, yn symud i fyny'r raddfa bob blwyddyn ar y dyddiad y gwnaethant ddechrau yn eu swydd nes eu bod yn cyrraedd yr uchafswm graddfa ar gyfer eu band.

Teitl y swydd:	**Uwch-swyddog Polisi ac Ymchwil**
Cyfeirnod:	**MBS-255-26**
Swyddfa:	**Alun Cox AS**
Oriau gwaith:	**7.4 awr yr wythnos / Dydd Llun** Efallai y bydd gofyn i ddeiliad y rôl weithio y tu allan i'w oriau gwaith arferol.
Natur y penodiad:	**Parhaol** Fel Aelod o'r Senedd, rwyf yn dal swydd fel cynrychiolydd etholedig. Pan fydd fy nghyfnod fel Aelod o'r Senedd yn dod i ben, bydd y swydd hon yn dod i ben.
Lleoliad:	**Y swyddfa etholaethol, sydd wedi'i lleoli yn etholaeth Afan Ogwr Rhondda, ac adeilad y Senedd.** Efallai y bydd gofyn i ddeiliad y rôl ymweld ag amrywiaeth o leoliadau ar draws fy etholaeth.

Gwybodaeth ychwanegol:
Rwy'n gyflogwr cyfle cyfartal ac yn croesawu ceisiadau gan unrhyw ymgeisydd addas, gan gynnwys pobl â'r nodweddion gwarchodedig a ganlyn: hil, rhywedd, anabledd, crefydd/cred, cyfeiriadedd rhywiol, hunaniaeth o ran rhywedd, priodas/partneriaeth sifil, beichiogrwydd/mamolaeth neu oedran.
Sylwer, bydd y penodiad yn amodol ar eirdaon a gwiriad diogelwch.

Ynglŷn â'r rôl

Polisi ac Ymchwil

Mae deiliaid swyddi Polisi ac Ymchwil yn gyfrifol am wneud gwaith ymchwil neu ddadansoddi ar faterion penodol, neu amrywiaeth o faterion, er mwyn rhoi gwybodaeth berthnasol i'r Aelodau neu'r Grwpiau. Ar brydiau, bydd angen darparu argymhellion neu opsiynau pragmatig sy'n canolbwyntio ar weithredu ar gyfer ymdrin â'r mater dan sylw. Bydd gweithgareddau'n cael eu cynnal ar lefel sy'n briodol i'r radd.

Mae'r prif nodweddion fel a ganlyn:

- Nodi canlyniadau ac effeithiau posibl drwy graffu ar waith Llywodraeth Cymru a chyrff eraill.
- Dadansoddi problemau, cynhyrchu opsiynau a gwerthuso.
- Cyfrannu at y gwaith o ddatblygu a llunio polisi.
- Gweithio mewn partneriaeth (yn fewnol ac yn allanol) i wneud gwaith ymchwil; dylanwadu ar ddogfennau polisi, strategaethau ac arferion gwaith; ac amlinellu goblygiadau dylanwadau allanol a thueddiadau fel datblygiadau mewn deddfwrfeydd eraill.

Diben y swydd

Bydd **Swyddog Polisi ac Ymchwil Band 1** sy'n gweithio i Aelod o'r Senedd yn arwain ar waith polisi ac ymchwil, a bydd yn chwarae rhan yn y broses o lunio safbwyntiau polisi ac yn ymgymryd â gwaith deddfwriaethol. Fel arfer, bydd yn arwain ar weithgarwch ym maes ymchwil a chraffu. Bydd yn goruchwylio'r gwaith o ddatblygu polisïau, ac yn gweithredu fel cynghorydd i'r Aelod ar faterion cymhleth.

Manyleb y person

Sgiliau ac ymddygiadau
• Gallu cadarn i bwyso a mesur materion, a dealltwriaeth dda o'r hyn y mae'n ei olygu i weithio mewn amgylchedd sensitif. • Sgiliau dadansoddi rhagorol, gan gynnwys y gallu i grynhoi amrywiaeth eang o safbwyntiau yn gywir a'r gallu i nodi materion allweddol yn gyflym o amrywiaeth o ffynonellau gwybodaeth. • Lefel uchel o hyfedredd ym maes TGCh er mwyn gallu dod o hyd i wybodaeth, a'i dadansoddi a'i chyflwyno mewn modd effeithiol, yn enwedig wrth ddefnyddio Word ac Excel. • Gallu rhagorol i ddadansoddi gwybodaeth gymhleth yn gyflym a nodi'r prif faterion perthnasol mewn ystod o bynciau, gan gynnwys y pynciau nad oes gennych fawr o wybodaeth flaenorol arbenigol amdanynt. • Tystiolaeth gadarn o weithio â chydweithwyr a'u cefnogi er mwyn gallu ymdrin â gofynion gwaith ymchwil a pharatoi papurau briffio. • Sgiliau trefnu cadarn, gyda'r gallu i gymhathu meysydd pwnc newydd yn gyflym a chyflwyno deunydd briffio cywir o fewn terfynau amser tyn. • Sgiliau cyfathrebu effeithiol mewn perthynas ag ystod eang o randdeiliaid, yn ddelfrydol pobl sydd â rolau uwch neu broffil uchel. • Sgiliau dadansoddi ac ymchwil cryf, gyda'r gallu i ddehongli gwybodaeth gymhleth. • Sgiliau rheoli, mentora staff llai profiadol a goruchwylio prosiectau ymchwil. • Dealltwriaeth o'r angen i frwydro yn erbyn gwahaniaethu ac i hyrwyddo cyfle cyfartal ac Egwyddorion Nolan ar gyfer Bywyd Cyhoeddus, ac ymrwymiad i'r materion hyn.
Gwybodaeth a phrofiad
• Profiad sylweddol o ddarparu gwaith ymchwil neu waith briffio mewn amgylchedd seneddol neu amgylchedd tebyg. • Profiad o weithio'n uniongyrchol gyda phobl amlwg a dylanwadol mewn amgylchedd prysur. • Dealltwriaeth lawn o'r gyfraith a'r fframweithiau rheoleiddio y mae'r Aelodau a'r Grwpiau yn gweithredu o'u mewn. Mae hyn yn cynnwys fframweithiau'r Senedd (safonau ymddygiad, gwariant ac ati) yn ogystal â fframweithiau ehangach a chyffredinol. Y gallu i roi cyngor gwybodus i'r Aelodau a chydweithwyr. • Dealltwriaeth dda o bolisïau'r Llywodraeth, deddfwriaeth a gweithdrefnau'r Senedd. • Dealltwriaeth o wahanol fodelau'r broses ymchwil a datblygu polisïau; yn

ymwybodol o ba rai sy'n berthnasol i'r maes polisi a pham.

- Sgiliau cyfathrebu ysgrifenedig a llafar rhagorol, yn enwedig o ran drafftio adroddiadau ac areithiau.
- Ymwybyddiaeth wleidyddol, gyda dealltwriaeth o bolisïau'r blaid a phryderon etholaethau.
- Y gallu i ymgysylltu â rhanddeiliaid a dylanwadu arnynt, o swyddogion y Llywodraeth i grwpiau eiriolaeth.
- Gwybodaeth am y gyfraith ac arfer da sy'n gysylltiedig â diogelu data a diogelwch gwybodaeth.
- Profiad a dealltwriaeth ymarferol o'r gyfraith ac arfer da sy'n gysylltiedig ag iechyd, diogelwch a llesiant, gan gynnwys asesiadau risg, mesurau rheoli, a gwybod pryd i geisio cyngor cymwys.
- Profiad o roi mesurau diogelu cymesur ar waith mewn perthynas â phlant ac oedolion sy'n agored i niwed.

Meini prawf dymunol

- Dealltwriaeth o faterion cyfoes a phynciau sy'n berthnasol i Gymru a'r ardal leol, a diddordeb yn system wleidyddol Cymru.
- Yn arddel amcanion a gwerthoedd y blaid.
- Trwydded yrru lawn, gyfredol y DU, ynghyd â mynediad at gerbyd sydd wedi'i yswirio at ddibenion gwaith.
- Profiad blaenorol o weithio i Aelod o'r Senedd, Aelod Seneddol neu Aelod o Senedd Ewrop.

Cymwysterau

- Gradd neu gymhwyster cyfatebol mewn pwnc perthnasol, neu brofiad addas arall.

Sgiliau iaith

- Mae sgiliau Cymraeg yn hanfodol ar gyfer y swydd hon, ac fe'u haseswyd fel a ganlyn:
    - Gwrando: Uwch
    - Siarad: Uwch
    - Darllen: Uwch
    - Ysgrifennu: Canolradd

Gwybodaeth ychwanegol am lefelau sgiliau iaith					
	Cyfateb yn fras i	**Gwrando**	**Siarad**	**Darllen**	**Ysgrifennu**
Canolradd	Canolradd	Yn deall y rhan fwyaf o sgyrsiau a chyfarwyddiadau yn weddol hyderus.	Yn gallu cynnal sgwrs estynedig gyda siaradwr rhugl yn weddol hyderus.	Yn deall y rhan fwyaf o destun yn weddol hyderus.	Yn gallu ysgrifennu testun, gan gynnwys gohebiaeth sylfaenol, yn weddol hyderus.
Uwch	Uwch neu Wedi cael addysg Gymraeg neu'n defnyddio'r Gymraeg yn rheolaidd Tystysgrif Sgiliau Iaith	Yn deall sgyrsiau a chyfarwyddiadau yn hyderus.	Yn gallu siarad a chymryd rhan mewn trafodaeth am gyfnod hir yn hyderus ac yn gallu ateb unrhyw gwestiwn.	Yn deall amrywiaeth helaeth o destun yn hyderus.	Yn gallu ysgrifennu amrywiaeth helaeth o destun yn hyderus.

Prif ddyletswyddau

Ymchwil a datblygu polisi
• Gwneud gwaith ymchwil manwl ar ddeddfwriaeth, polisïau'r Llywodraeth a thueddiadau gwleidyddol. • Drafftio adroddiadau, papurau polisi, a dogfennau briffio i gefnogi gwaith yr Aelod. • Dadansoddi materion etholaethol, cynigion y Llywodraeth ac adroddiadau pwyllgorau. • Nodi heriau a chyfleoedd sy'n dod i'r amlwg o ran polisi, gan gynorthwyo'r broses o lunio ymatebion yr Aelod.
Strategaeth ddeddfwriaethol a seneddol
• Drafftio a chyflwyno cwestiynau, cynigion, areithiau a gwelliannau yn y Senedd. • Cefnogi'r Aelod mewn dadleuon, pwyllgorau a chyfarfodydd gyda Gweinidogion. • Monitro deddfwriaeth, papurau ac ymgynghoriadau polisi, gan sicrhau bod yr Aelod wedi'i baratoi'n dda.
Ymgysylltu â rhanddeiliaid a dylanwadu arnynt
• Datblygu perthynas â melinau trafod, adrannau'r Llywodraeth, elusennau a grwpiau eiriolaeth. • Cynrychioli'r Aelod mewn cyfarfodydd, fforymau polisi a digwyddiadau etholaethol. • Cydgysylltu ymgyrchoedd, ymyriadau'r Senedd ac ymdrechion o ran materion cyhoeddus ar faterion. • Drafftio ymatebion i ohebiaeth sy'n ymwneud â pholisi.
Y cyfryngau a chyfathrebu
• Cefnogi staff Cyfathrebu i ddrafftio datganiadau i'r wasg a datganiadau polisi ar gyfer y cyfryngau ac allgymorth cyhoeddus. • Cefnogi'r strategaeth ar gyfer y cyfryngau cymdeithasol drwy gynghori ar negeseuon polisi a phwyntiau trafod allweddol. • Cynorthwyo'r broses o baratoi'r Aelod ar gyfer cyfweliadau gyda'r cyfryngau, ymddangosiadau cyhoeddus a dadleuon.
Strategaeth rheoli a swyddfa
• Goruchwylio gwaith swyddogion polisi, ymchwilwyr llai profiadol a staff eraill, o bosibl, er mwyn sicrhau gwaith o ansawdd uchel.

- Sicrhau bod yr holl allbynnau polisi yn cyd-fynd â nodau gwleidyddol y blaid ac anghenion yr etholaeth.
- Bod yn atebol am gyflawni gwaith o ansawdd ar amser ac o fewn cyllideb, yn uniongyrchol a thrwy eraill, drwy wella perfformiad y tîm.
- Cynllunio a rheoli eu llwyth gwaith eu hunain a llwythi gwaith eraill, yn unol â gofynion yr Aelod.
- Gwneud penderfyniadau pan nad oes fawr ddim cyngor, canllawiau na chynseiliau ar gael, neu pan nad oes cyngor, canllawiau na chynseiliau o gwbl ar gael, yn unol â dymuniadau'r Aelod.

Rhwymedigaethau yn y gweithle

Diogelu data / diogelwch gwybodaeth:

- Cefnogi a chynghori'r Aelod i gydymffurfio â'i rwymedigaethau sy'n ymwneud â diogelu data a diogelwch gwybodaeth, yn unol â deddfwriaeth a chodau ymarfer perthnasol.

Iechyd, diogelwch a llesiant:

- Cefnogi a chynghori'r Aelod i gydymffurfio â'i rwymedigaethau sy'n ymwneud ag iechyd, diogelwch a llesiant, yn unol â deddfwriaeth a chodau ymarfer perthnasol.

Diogelu:

- Cefnogi a chynghori'r Aelod i gydymffurfio â'i rwymedigaethau sy'n ymwneud â diogelu plant ac oedolion sy'n agored i niwed, yn unol â deddfwriaeth a chodau ymarfer perthnasol.

Arall

- Gweithredu o fewn y gyfraith a'r fframweithiau rheoleiddio y mae'r Aelodau a'r Grwpiau'n gweithredu o'u mewn, gan gynnwys fframweithiau'r Senedd (safonau ymddygiad, gwariant ac ati) a fframweithiau ehangach a chyffredinol (dyletswyddau cyfreithiol).
- Gwneud penderfyniadau pan nad oes fawr ddim cyngor, canllawiau na chynseiliau ar gael, neu pan nad oes cyngor, canllawiau na chynseiliau o gwbl ar gael, yn unol â dymuniadau'r Aelod.
- Cyflawni dyletswyddau eraill sy'n gymesur â'r band hwn, yn ôl yr angen, i gefnogi'r Aelod.